Annwyl Wanwyn

Wrth i'r dyddiau ymestyn a'r haul ddechrau dangos ei wên yn amlach, beth am dreulio prynhawn yn ysgrifennu cerddi am y gwanwyn?

I ddechrau, mae angen sesiwn casglu syniadau. Fel dosbarth neu mewn grwpiau ewch ati i drafod y gwanwyn. Beth ydym ni'n ei weld yn y gwanwyn? Pa liwiau? Pa arogleuon sydd i'w clywed yn y gwanwyn? Beth welwn ni tu allan? Oes yna anifeiliaid gwahanol o gwmpas? Yda ni'n bwyta unrhyw beth diddorol yn y gwanwyn? Sut yda ni'n teimlo yn y gwanwyn?

Casglwch yr holl syniadau ar y bwrdd gwyn, gan annog y plant i gyfrannu. Hyd yn oed os ydy nhw'n cyfrannu syniadau hollol wallgo, dim ots, lawr a nhw ar y bwrdd gwyn!

Yna, mewn parau neu yn unigol, ewch ati i sgwennu llythyr at y gwanwyn, gan ddefnyddio'r templed isod. Bydd angen atgoffa'r plant sawl gwaith bod croeso iddynt ddefnyddio'r geiriau a'r syniadau sydd ar y bwrdd gwyn, neu feddwl am syniadau eu hunain. Fel hyn bydd y plant gwanaf yn teimlo'n hyderus i roi cynnig arni gan ddefnyddio beth sydd ar y bwrdd gwyn, a gan amlaf bydd y plant sy'n mwynhau ysgrifennu yn meddwl am syniadau newydd eu hunain.

Annwyl Wanwyn,

Mae gen i hiraeth amdanat ti.

Mae gen i hiraeth am …

Brysia yma wanwyn!

Llawer o gariad,

ENW'R PLENTYN/PLANT

Mae hyn yn ffordd reit hawdd o gael pawb i ysgrifennu cerdd, hyd yn oed y sgwennwyr anfoddog. Os bydd rhai yn gorffen mewn dim beth am eu hannog i ysgrifennu llythyr at rhywbeth arall sydd ddim yn berson? Beth am ysgrifennu llythyr at y lleuad? Neu at y gorffennol? Y dyfodol? Mae'r opsiynau yn ddibendraw!

Mwynhewch :)

Casia